GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

DIOGEL | CYNALIADWY | HYGYRCH | CAREDIG
SAFE | SUSTAINABLE | ACCESSIBLE | KIND

# Cynllun Clwstwr Llanelli 2024/25



# Llanelli

DIOGEL | CYNALIADWY | HYGYRCH | CAREDIG
SAFE | SUSTAINABLE | ACCESSIBLE | KIND

Mae blaenoriaethau Clwstwr Llanelli yn cael eu llywio tuag at helpu'r boblogaeth i ddod yn fwy gwydn a chanolbwyntio ar wella iechyd a lles pobl. Y nod yn y pen draw fydd cael poblogaeth sy'n defnyddio llai o wasanaethau, yn ymgysylltu'n fwy â'u cymunedau ac yn cymryd rhan fwy gweithredol yn eu hanghenion iechyd a lles eu hunain. Mae'r ystod amrywiol eang o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â phrosiectau Clwstwr, gan gynnwys rhagnodwyr cymdeithasol, Nyrsys, Therapyddion a Chynghorwyr i gyd ar hyn o bryd yn cyfrannu at wneud Gofal Sylfaenol yn fodel mwy cynaliadwy ac integredig. Ein nod yng Nghlwstwr Llanelli yw un o bartneriaeth, cefnogi pobl i gael gwell iechyd a lles trwy gydol eu hoes.

## Am ein Poblogaeth

Dynion – **48.5%**
Menywod – **51.5%**

65+ oed – **21.8%**
85+ oed – **3.0%**

Mae **44.1%** o bobl mewn iechyd cyffredinol da iawn

### PREVALENCE OF CHRONIC CONDITIONS
(PRIMARY CARE DATA 2021/22, ARROW INDICATES LONG TERM TREND)

| | | |
|---|---|---|
| CHD (SECONDARY PREVENTION) 4.03% ↓ | CANCER 3.64% ↑ | |
| ASTHMA 7.73% ↑ | HYPERTENSION 16.31% ↑ | DIABETES (17+ Population) 8.62% ↑ |
| COPD 2.22% ↓ | MENTAL HEALTH 1.04 ↑ | STROKE 2.39% ↑ |
| ATRIAL FIBRILLATION 2.82% ↑ | HEART FAILURE 2.82% ↑ | DEMENTIA 0.84% ↑ |

### RISK FACTORS
(National Survey for Wales 2021/22, Adult population 16+ County level data only – arrow indicates comparison to HDd UHB ave.)

| | |
|---|---|
| | ACTIVE FOR <30 MINUTES/ WEEK 22% ↓ |
| CURRENT SMOKER 16.0% ↑ | ALCOHOL CONSUMPTION ABOVE GUIDELINES 15.0% ↓ |
| CHILDHOOD OBESITY * 16.5%-18.1% ↑ | E-CIGARETTE USER 6.0% ↑ |
| OVERWEIGHT OR OBESE (BMI >25) 68.0% ↑ | FEWER THAN 2 HEALTHY BEHAVIOURS 8.0% ↓ |

### IMMUNISATION UPTAKE

| |
|---|
| UP TO DATE WITH CHILDHOOD VACCINES BY AGE FOUR 93.01% |
| INFLUENZA 65+ 79.61% |
| INFLUENZA (At risk 6 mths to 64 yrs) 45.43% |
| INFLUENZA 2-3 YEAR OLDS 37.76% |

### SCREENING UPTAKE

| | | | |
|---|---|---|---|
| BOWEL 66.4% ↑ | CERVICAL 64.5% ↓ | BREAST 70.5% ↓ | AAA 75.6% → |

## Am ein Gwasanaethau

- **7** Meddygfa **1** Feddygfa Cangen
- **7** Deintyddfa ac **1** Practis Orthodontig

- **13** Fferyllfa Gymunedol
- **5** Practis Optometreg
- **1** Ysbyty (Tywysog Philip)
- **1** Clinig Cymunedol (Elizabeth Williams)
- **14** Cartref Nyrsio a Phreswyl
- **1** Tîm Adnoddau Cymunedol

## Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

- Roed **401,776** o apwyntiadau meddyg teulu ac roedd **53**% ohonynt wyneb yn wyneb
- Roedd **26**% o'r apwyntiadau yn rhai brys
- Bu **798** o ymgynghoriadau yn y gwasanaeth PIPs ar gyfer anhwylderau cyffredin
- Dosbarthwyd **1,953,510** o eitemau gan Fferyllfeydd
- Cafodd **567** o bobl eu gweld gan y Gwasanaeth Optometreg Rhagnodi Annibynnol

## Cyllideb Clwstwr (Cylchol)

- Y gwariant ar gyfer 2023/24 yw **£446k**
- Y gyllideb ar gyfer 2024/25 yw **£454k**

## Blaenoriaethau Clwstwr 2023/24

- **Gwasanaethau Iechyd Meddwl** a gomisiynir i oedolion a phlant a phobl ifanc i gael mynediad amserol at wasanaethau ar gyfer pryderon iechyd meddwl isel i ganolig.
- **Mapio dementia** o'r gwasanaethau sydd ar gael i geisio symleiddio llwybrau trwy weithio gyda'r Tîm Asesu Cof gyda'r bwriad o archwilio pa wasanaethau y gellid eu darparu gan bractisau meddygon teulu.
- **Hyfforddiant Trais a Cham-drin Domestig** trwy weithio gydag IRISi i ddarparu addysg a hyfforddiant i Bractisau Meddygon Teulu a fyddai'n cefnogi'r gwaith o nodi cleifion a chefnogi atgyfeirio a chymorth priodol i'r unigolion y mae DVA yn effeithio arnynt.

## Blaenoriaethau Clwstwr 2024/25

- Mae **gwasanaethau Iechyd Meddwl** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Clwstwr, fodd bynnag oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu hailgomisiynu bydd 2024/25 yn gyfle i bwyso a mesur yr hyn a gomisiynwyd yn flaenorol a mapio hyn ar draws gwasanaethau Iechyd Meddwl eraill i sicrhau ein bod yn comisiynu'r gwasanaethau cywir ar gyfer ein cleifion.
- Profi ac adrodd **sbirometreg** trwy glinigau hygyrch lleol gyda'r nod o glirio'r ôl-groniad presennol a chael dim rhestr aros ar gyfer profion yn y dyfodol.
- Gwella **cyfeirio** cleifion i'w cefnogi i gymryd rheolaeth o'u hiechyd a'u lles eu hunain gan ddefnyddio gwefannau'r Clwstwr, gwella hygyrchedd i ymarfer corff ac ati. Nod y Clwstwr yw cael yr holl ddarparwyr gofal yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm cynhwysol i hyrwyddo hunanofal a lles bod.